EISTEDDFOD TREFEGLWYS

Cynhaliwyd y 102 Eisteddfod a drefnwyd gan Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys eleni ar ddydd Sadwrn Hydref 7ed yn y Neuadd Goffa.

Y Beirniaid eleni oedd Bronwen Morgan, Llangeitho yn beirniadu y Llen a Llefaru, Odette Jones, Treharris yn beirniadu yr adran Cerdd a Ruth Jenkins, Trefeglwys yn beirniadu'r Dawnsio. Roedd y gwaith llaw i'w gweld yn addurno'r Neuadd Fwyta y Beirniaid yn yr adrannau yma oedd, Crefftau – Jan Toms, Trefeglwys, Llen y plant – Delma Thomas, Llawysgrifen – Wendy Wigley, Gwaith Llaw – Eirwen Turner.

Bu'r Beirniaid yn brysur iawn trwy'r dydd yn arbennig yng ngyfarfod y prynhawn gyda dros ugain o blant mewn rhai cystadleuthau, cafwyd cefnogaeth dda iawn o'r ysgol lleol, Ysgol Dyffryn Trannon. Ennillwyd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol a Thlws Catrin Alwen am yr unawdydd gorau yng ngyfarfod y prynhawn gan Aria Davies, Llanbrynmair, mae'n siwr bydd dyfodol disglair iddi . Bethan Evans ennilloddd y cwpan yn yr adran grefftau am greu lun oedd yn portreadu"Ein Byd"

Bethan Lloyd Owen a Gwynfryn Evans bu yn cadw trefn ar cystadleuthau'r llwyfan gydag Alwena Nutting, Aberhafesp yn cyfeilio yng ngyfarfod y prynhawn a John Moore o'r Amwythig yng ngyfarfod yr hwyr.

Cynigwyd Tlws y Gadair eleni am gerdd ar y testun"Hiraeth", daeth deg cerdd i fewn i'r gystadleuaeth gyda Dai Rees Davies Rhydlewis yn fuddugol am ei gerdd yn son am y tro ar fyd ar hiraeth am yr amser a fu. Dyma fel mae'r gerdd yn diweddu:-

Ddoe, ar fynyddoedd yr haf anheddau
Y niwl a giliodd, ar ol y gwyliau
Erys unigedd gwyngalchog feddau,
Hen dai'r werin sydd a bollt i'w dorau.
Y mawredd rhwng y muriau – sy'n hiraeth,
A hen fodolaeth sy'n gofadeiliau.

Bronwen Morgan bu yn arwain seremoni'r cadeirio, ac ar ol ei beirniadaeth cyrchwyd y Bardd Buddugol i'r llwyfan gan Joyce Smithies a Tirion Jones. Ceidwad y Cledd oedd Iwan Owen gyda Owen Lloyd Jones yn canu can y cadeirio a Bethan Lloyd Owen a Margaret Jones yn cyfarch y Bardd.

Wrth gyflwyno Llywydd yr eisteddfod dywedodd Iwan Owen fod Mr Hefin Bennett wedi rhoi cyfraniad arbennig i'r eisteddfod trwy fod yn arweinydd yr Eisteddfod am hanner cant o flynyddoedd. Wrth anerchu bu Hefin yn son am ei atgofion o'r eisteddfod dros yr holl flynyddoedd ar pwysigrwydd o meithrin a chefnogi talentau ein pobol ifanc

Gwnaed y diolchiadau ar ol dros deuddeg awr o gystadlu gan Cadeirydd y Pwyllgor Iwan Owen, yn sicr cafwyd diwrnod i'w gofio.

Canlyniadau

Unawd oed Meithrin	1. Mari Evans	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Eli Lloyd	Ysgol Dyffryn Trannon
	3. Teleri Rowlands	,, ,, ,,
Llefaru oed Meithrin	1. Eli Lloyd	,, ,, ,,
	2. Stanley Morgan	,, ,, ,,
	3. Archie Hamer	,, ,, ,,
Unawd Bl 1 a 2	1. Aria Davies	Llanbrynmair
	2. Carys Williams	Ysgol Dyffryn Trannon
	3. Menna Vaughan	,, ,, ,,
Llefaru Bl 1 a 2	1. Aria Davies	Llanbrynmair
	2. Carys Williams	Ysgol Dyffryn Trannon

	3. Llywelyn Turner	,, ,, ,,
	3.Bethan Evans	Ysgol Dyffryn Trannon
Unawd Bl 4 ag Iau	1. Sophie Ashton	,, ,, ,,
	3. Eleri Vaughan	,, ,, ,,
Llefaru Bl 4 ag Iau	1. Sophie Ashton	
	2. Rhys Jones	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Seren Thomas	,, ,, ,,
	3. Eleri Vaughan	,, ,, ,,
	3. Haf Higgs	,, ,, ,,
Unawd Bl 6 ag Iau	1. Ffion Morgan	Mochdre
	2. Elin Jones	Ysgol Dyffryn Trannon
Llefaru Bl 6 ag Iau	1.Ffion Morgan	
	2. Elin Jones	Ysgol Dyffryn Trannon
	3. Llywela Thomas	,, ,, ,,
Cor Plant	1. Cor Mawr	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Cor Bach	,, ,, ,,
Parti Cydlefaru	1. Parti Arwyr	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Parti Smotiau	
Dawns Werin Bl 6 ag Iau	1. Grwp Gwennan	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Grwp Lilya	,, ,, ,,
	3. Grwp Haf	,, ,, ,,
Dawnsio Disgo Bl 6 ag Iau	1. Difas y Dyffryn	,, ,, ,,
	2. Dols y Dyffryn	,, ,, ,,
	3. Freestylers	,, ,, ,,
	3. Libby Baker	,, ,, ,,
Unawd dan 16	1. Catrin Bufton	Sarn
	2. Beth Mali	Llangernyw
Llefaru dan 16	1. Beth Mali	
	2. Angharad Jones	Llawryglyn
Can Werin dan 16	1. Beth Mali	
Deuawd dan 16	1. Kate a Sarah Jerman	Llawryglyn
Unawd Offerynol dan 16	1. Kate Jerman	
	2. Beth Mali	
	3. Sarah Jerman	
Unawd dan 21	1. Mared Jones	Dolgellau
	2. Beth Mali	
Llefaru dan 21	1. Mared Jones	
Unawd dan 30	1. Heulen Cynfal	Parc
	2. Mared Jones	
	3. Heledd Besant	Llanbedr-Pont-Steffan
Llefaru dan 30	1. Heledd Besant	
	2. Heulen Cynfal	
	3. Mared Jones	
Unawd o Sioe Gerdd	1. Heulen Cynfal	
	2. Heledd Besant	
	3. Mared Jones	
Canu Emyn dros 60	1. Elen Davies	LlanfairCaereinion
	2. Hywel Anwyl	Llanbrynmair
	3. Tecwyn Jones	Machynlleth
Unawd Offerynnol	1. Kate Jerman	

Her Unawd	1. Heulen Cynfal	
	2. Marianne Jones Powell	Llandre
	3. Crwys Evans	Pontrhydygroes
Her Lefaru	1. Heledd Besant	
	2. Maria Evans	Caerfyrddin
	3. Heulen Cynfal	
Unawd Gymraeg	1. Bryn Davies	Llanwnog
	2. Crwys Evans	
	3. Marianne Jones Powell	
Darllen o'r Beibl	1. Maria Evans	
Can Werin	1. Marianne Jones Powell	
	3. Trevor Morgan	Llandrindod
Cor	1. Cor Llanwnog	
Cerdd y Gadair	Dai Rees Davies	Rhydlewis
Englyn	Edwin O Hughes	Pennant
Cyfansoddi Emyn, Can Ddigri, Stori Fer	John Meurig Edwards	Aberhonddu
Limrig	Mary Morgan	Llanrhystud
Limrig Saesneg	Gareth Jenkins	Amwythig